

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

2 Mai 2021

Pasg V

CYHOEDDIADAU'R SUL

GWASANAETHAU HEDDIW

Gweinyddir y Cymun Bendigaid am 9.00am
Darlledir y ddau bodlediad fel arfer.

GWASANAETH Y SUL NESAF YN YR EGLWYS

Cynhelir gwasanaeth o'r **Hwyrol Weddi am 6.00pm**.
Os ydych yn bwriadu dod i'r gwasanaeth hwn a
wnewch chi roi gwybod i Marian Fairclough trwy e-
bost i faircloughmarian@gmail.com neu ffonio: 029
2088 5151 **erbyn 4.00 o'r gloch prynhawn Sadwrn
fan bellaf.**

BLODAU'R ALLOR

Os hoffech osod blodau ar yr allor yn ystod 2021 a
wnewch chi gysylltu ag Ann Mears neu Dilys Jones
â'ch dewis o ddyddiadau os gwelwch yn dda.

FESTRI'R PASG

Pleser gennyf adrodd bod Wyn Mears a Gwynn
Matthews yn parhau fel wardeniaid yn dilyn Festri'r
Pasg. Etholwyd y canlynol i fod yn aelodau o'r Cyngor
Plwyfol Eglwysig 2021: Ifer Arch, Delyth Davies, Rhys
Davies, Marian Fairclough, Liz Harewood, Dilys Jones a
Rhys Jones.
Derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Festri.

NEWYDDION O'R DDEONIAETH

Bydd y Parchedig Edward Owen yn cael ei sefydlu yn
ficer Grangetown prynhawn Sul 16 Mai.

GOFAL EIN GWINLLAN

Cynhelir y trydydd yn y gyfres o weminarau ar
gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên
a'i diwylliant ddydd Sadwrn 8 Mai gan ddechrau am
10.00am. Bydd Dr A Cynfael Lake yn trafod "Ellis
Wynne o'r Lasyns a Chwrs y Byd", a bydd yr Athro
Huw Pryce yn edrych ar Theophilus Evans a Drych y
Prif Oesoedd. Croeso i bawb. Os hoffech gofrestru
dilynwch y ddolen hon: <https://bit.ly/3fstN2H>

DYDD IAU'R DYRCHAFael

Mae Dydd Iau'r Dyrchafael yn syrthio ar 13 Mai eleni a
bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid yn yr Eglwys
am 10.30am.

COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore Coffi a Chlonc dros Zoom dydd
Sadwrn 15 Mai gan ddechrau am 10.30am. Manylion i
ddilyn.

YMDDEOLIAD

Bydd y Parchedig John Davies, Esgob Abertawe ac
Aberhonddu (2008) ac Archesgob Cymru (2017) yn
ymddeol heddiw.

YN YR EGLWYS:

Dydd Sul 9 Mai 2021

Pasg VI – Sul y Gweddïau

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

GWASANAETHAU HEDDIW: Pasg V

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn
ymddangos gyda'r e-bost sy'n cynnwys y daflen hon.
Mae modd ymweld â gwefan yr eglwys i ddod o hyd
i'n gwasanaethau ar lein.

Bydd podlediad heno am 6.00pm yn wasanaeth o'r
Hwyrol Weddi.

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiw'n yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach,
Enid Davies, John Hicks, Sally Lewis, Catrin Morgan,
Nia Roberts, Ceri Saunders, Gwen Thomas, ac am
bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn
nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiw'n am eu
marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt,
O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched
goleuni gwastadol arnynt.

ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng
Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrol Weddi (glas
tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y
gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn
dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n
gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

Y Foreol Weddi:

Salm 22:25-31

Actau 8:26-40

Ioan 15:1-8

Yr Hwyrrol Weddi:

Salm 96

Eseia 60:1-14

Datguddiad 3:1-13

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y gwasanaeth boreol

Thema: Aros yng Nghrist

**Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de,
Gorllewin, gogledd chwaith;
Cymdeithas gref o gariad sydd
Yn un drwy'r ddaear faith.**

**Calonnau cywir ym mhob man,
Eu hundeb ynddo sydd;
Gwasanaeth Crist yw'r gadwyn aur
Sy'n cydio pawb trwy ffydd.**

**Pob lliw, pob llun, O down ynghyd,
Un teulu ydym ni;
A wasanaetho Duw ein Tad
Mae'n frawd neu chwaer i mi.**

**Yng Nghrist ei hun cyferfydd pawb
O bedwar ban y byd;
Mae'r saint yn un yng Nghrist yn awr
Trwy'r ddaear fawr i gyd.
John Oxenham
*Cyf. William Morris 140.***

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Alelwia! Atgyfododd Crist.

Atgyfododd yn wir. Alelwia.

**Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol,
edrych arnom yn awr mewn gallu a thrugaredd.
Bydded i'th nerth orchfygu ein gwendid,
i'th lewyrch oleuo ein dallineb,
ac i'th Ysbryd ein denu at y cariad hwnnw
sy'n cael ei ddangos a'i gynnig inni gan dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

Arglwydd, trugarha.

Crist, trugarha.

Arglwydd, trugarha

Dad nefol,

**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
Maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni. Amen.**

Yr Hollalluog Dduw,
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
a drugarhao wrthym, a'n rhyddhau o bechod,
ein cadarnhau mewn daioni
a'n cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd.
Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.
Arglwydd Dduw, Frenin nefol,
Dduw Dad Hollalluog.**

**O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist;
O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,
sy'n dwyn ymaith bechod y byd,
trugarha wrthym;
tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,
derbyn ein gweddi.**

**Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd;
ti yn unig yw'r Arglwydd;
ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân,
sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.**

Colect: Pasg V

Hollalluog Dduw,
a orchfygaist angau trwy dy uniganedig Fab
ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol:
bydded i'th ras ein rhagflaenu
a dyro ddeisyfiadau da yn ein meddyliau
fel y gallwn, trwy dy gymorth parhaus di,
eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd atgyfodedig,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Actau 8. 26-40

Llefarodd angel yr Arglwydd wrth Philip: "Cod,"
meddai, "a chymer daith tua'r de, i'r ffordd sy'n mynd
i lawr o Jerwsalem i Gasa." Ffordd anial yw hon.

Cododd yntau ac aeth. A dyma ŵr o Ethiop, eunuch, swyddog uchel i Candace brenhines yr Ethiopiaid, ac yn ben ar ei holl drysor hi; yr oedd hwn wedi dod i Jerwsalem i addoli, ac yr oedd yn dychwelyd ac yn eistedd yn ei gerbyd, yn darllen y proffwyd Eseia. Dywedodd yr Ysbryd wrth Philip, "Dos a glŷn wrth y cerbyd yna." Rhedodd Philip ato a chlywodd ef yn darllen y proffwyd Eseia, ac meddai, "A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?" Meddai yntau, "Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo?" Gwahoddodd Philip i ddod i fyny ato ac eistedd gydag ef. A hon oedd yr adran o'r Ysgrhythur yr oedd yn ei darllen: "Arweiniwyd ef fel dafad i'r lladdfa, ac fel y bydd oen yn ddistaw yn llaw ei gneifiwr, felly nid yw'n agor ei enau. Yn ei ddarostyngiad gomeddwyd iddo farn. Pwy all draethu am ei ddisgynyddion? Oherwydd cymerir ei fywyd oddi ar y ddaear." Meddai'r eunuch wrth Philip, "Dywed i mi, am bwy y mae'r proffwyd yn dweud hyn? Ai amdano'i hun, ai am rywun arall?" Yna agorodd Philip ei enau, a chan ddechrau o'r rhan hon o'r Ysgrhythur traethodd y newydd da am Iesu iddo. Fel yr oeddent yn mynd rhagddynt ar eu ffordd, daethant at ryw ddŵr, ac ebe'r eunuch, "Dyma ddŵr; beth sy'n rhwystro imi gael fy medyddio?" A gorchynnodd i'r cerbyd sefyll, ac aethant i lawr ill dau i'r dŵr, Philip a'r eunuch, ac fe'i bedyddiodd ef. Pan ddaethant i fyny o'r dŵr, cipiwyd Philip ymaith gan Ysbryd yr Arglwydd; ni welodd yr eunuch mohono mwyach, ac aeth ymlaen ar ei ffordd yn llawen. Cafodd Philip ei hun yn Asotus, ac aeth o gwmpas dan gyhoeddi'r newydd da yn yr holl ddinasoedd nes iddo ddod i Gesarea.

Salm 22:25 – 27, 30-31

**Honot ti bydd, ac i ti gwedd
Mewn aml orsedd fy moliant:
I Dduw rhof f'addunedau'n llon
Ger bron y rhai a'i hofnant.**

**Diwellir y tlodion:
A'r rhai a geisiai yr Arglwydd
A'i moliant ef, fo gaiff (gwir yw)
Eich enaid fyw'n dragywydd.**

**Trigolion byd a drônt yn rhwydd
at yr Arglwydd pan gofiant:
A holl dylwythau'r ddaear hon
Dônt ger ei fron, ymgrymant.**

**Y rhai'n oll a'i had yn un fryd
Gwnânt iddo gyd wasanaeth:
A'r rhai'n i'r Arglwydd drwy'r holl dir
A rifir yn genhedlaeth.**

**Dônt, dangosant ei uniondeb
Y rhai sydd heb eu geni:
Hyn a addawodd, ef a'i gwnaeth,
Hynny a ddaeth o ddifri.**

Salmau Cân Edmwnd Prys 1621

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan.
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

"Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr. Y mae ef yn torri i ffwrdd bob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth, ac yn glanhau pob un sydd yn dwyn ffrwyth, er mwyn iddi ddwyn mwy o ffrwyth. Yr ydych chi eisoes yn lân trwy'r gair yr wyf wedi ei lefaru wrthyhych. Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chiwi. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chiwi aros ynof fi. Myfi yw'r winwydden; chiwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim. Os na fydd rhywun yn aros ynof fi, caiff ei daflu i ffwrdd fel y gangen ddiffwrwyth, ac fe wywa; dyma'r canghennau a gesglir, i'w taflu i'r tân a'u llosgi. Os arhoswch ynof fi, ac os erys fy ngeiriau ynoch chiwi, gofynnwch am beth a fyynnwch, ac fe'i rhoddir ichwi. Dyma sut y gogoneddir fy Nhad: trwy i chiwi ddwyn llawer o ffrwyth a bod yn ddisgyblion i mi.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.
Moliant i ti, O Grist.

**Y Bregeth
Meddai Iesu, "Myfi yw'r wir winwydden; chiwi yw'r
canghennau".** Ioan 15:5

Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â gwinllannoedd, ac nid yw Cymru fach ei hun heb ei gwinllannoedd erbyn hyn. Mae modd gweld y winwydden yn tyfnu'n ddigon hapus yn siroedd Mynwy a Cheredigion; yn Nghonwy ac yn Sir Fôn. Y mae tueddiad gennym i feddwl mai ffasiwn newydd yw plannu gwinllannoedd yng Nghymru, ond nid felly y mae hi. Mae tystiolaeth i awgrymu mai'r Rhufeiniaid oedd y rhai cyntaf i blannu gwinllannoedd yma bron i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Hefyd, os cofiaf yr hanes yn iawn, fe benderfynodd Ardalydd Bute blannu gwinllan ar y llethrau o amgylch Castell Coch pan adferwyd y castell yng ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl y sôn, roedd hi'n weddol lewyrchus ac yn cynhyrchu gwin o safon dderbyniol tan ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth edrych ar y goedwig hardd o amgylch y castell heddiw, mae'n anodd credu bod yno winllan ar un adeg, a hynny mewn ardal a oedd mor ddiwydiannol. Byddai wedi bod yn olygfa hynod ac annisgwyl i ymwelydd â'r ardal ychydig dros ganrif yn ôl, yr un mor hynod a dieithr â'r castell rhamantus a thrawiadol ei hun!

A dwi'n dechrau gyda'r ddelwedd gyfoes o'r winllan, oherwydd mai ychydig iawn sydd wedi newid

yn y ffordd y mae gwinllannoedd yn cael eu plannu a'r ffordd y mae'r winwydden yn cael ei thrin a'i thocio er mwyn iddi ddwyn ffrwyth toreithiog ac aeddfed i wneud gwin. Yr un yw'r sgiliau, yr un yw'r gwaith wrth drin gwinllan heddiw ag yr oedd yng nghyfnod Iesu. Pan ddewisodd Iesu ddweud "Myfi yw'r Bugail da" fel clywsom y Sul diwethaf, neu "myfi yw'r wir winwydden fel y clywn heddiw", neu "myfi yw bara'r bywyd" fe gymerodd Iesu nid yn unig ddelweddau a oedd yn gyfarwydd i'w wrandawyr yn eu hoes hwy, ond hefyd ddelweddau oedd yn gyffredin i nifer o ddiwylliannau eraill, yn ogystal â bod yn ddelweddau a fyddai'n aros yn berthnasol tra pery'r ddynoliaeth. Yn y dyfodol, bydd angen gwlan, grawnwin, grawnfwyd, bara a gwin arnom – ac felly bydd angen bugeiliaid a gwinllannoedd arnom.

Yng ngwlad y Beibl yng nghyfnod Iesu roedd gwinllan yn olygfa gyffredin iawn, a byddai'r mwyafrif, rwy'n siŵr, yn gyfarwydd â'r gwaith trin oedd ar y winwydden ei angen i sicrhau ei bod yn dwyn ffrwyth. Heb ei thrin a'i thocio, heb y gofal cywir, byddai'r winwydden yn troi'n afreolus o fewn dim, yn taflu canghennau i bob cyfeiriad. Byddai ei holl egni yn cael ei ddisbyddu wrth iddi ymestyn ei changhennau yn hytrach na'i ddefnyddio ei hegni i ddwyn ffrwyth. Ond wrth ei thocio a thorri'r canghennau diffrwyth i fwrdd, a chan reoli ei thyfiant yn olafus, y mae'r gwinllannwr yn annog y winwydden i neilltuo ei holl egni i'r gwaith o greu grawnsypiau da. Un o'r pethau sy'n taro dyn wrth ymweld â gwinllan yw gweld mor daclus a chymen yw'r winwydden ar ei rhes, pob un wedi'i thrin yn ofalus. Heb y driniaeth galed hon, byddai'r winllan yn edrych yn debycach i jyngl gwyllt a byddai angen bilwg arnoch i dorri trwy'r tyfiant er mwyn cyrraedd o'r un pen i'r llall.

Felly, ni fuasai gwrandawyr Iesu wedi synnu wrth glywed ei eiriau am yr angen i docio'r winwydden a'i gwaredu o'i changhennau diffrwyth. Roedd angen gwneud hynny i sicrhau cynhaeaf da. Ni fyddai'r gwrandawyr chwaith wedi synnu clywed ei eiriau am yr angen i losgi'r canghennau chwaith. Mae pren y winwydden yn rhy frau i fod o unrhyw werth a does dim defnydd iddo. Buasai ei wrandawyr hefyd yn ymwybodol o'r elfen ysbrydol a chrefyddol oedd yn perthyn i winwydden.

Yn yr Hen Destament, y mae pobl Dduw ei hun yn cael eu cymharu â gwinwydden – "Gwinllan yr Arglwydd y Lluoedd yw Tŷ Israel", meddai'r proffwyd Ezeia wrthym. Yn Salm 80 cawn blant Israel yn cael eu disgrifio fel gwinwydden wedi'i thynnu allan o'r Aifft a'i phlannu yng Ngwlad yr Addewid gan Dduw. Dywed

y proffwyd Jeremeia wrthym am Dduw yn dewis y gorau iddo ei hun, "Plennais di yn winwydden bêr, o had glân pur". Duw y gwinllannwr a blannodd ei bobl ac a ofalodd amdanynt. Mor bwysig oedd y winwydden i hunaniaeth y bobl – fe ddaeth yn symbol i gynrychioli pobl Israel.

Felly pan ddywedodd Iesu, "Myfi yw'r wir winwydden", yr oedd yn cymryd delwedd gyfarwydd a ddefnyddid i ddisgrifio cenedl Israel a'i defnyddio i ddisgrifio ef ei hun. Dyma ddweud mawr o eiddo Iesu; nid y genedl oedd y wir winwydden bellach, ond Iesu ei hun. Yr oedd Duw trwy Iesu yn galw ato ei hun bobl newydd. Nid trwy gael ei eni yn rhan o genedl yr oedd rhywun bellach yn dod yn gangen i'r wir winwydden, ond yn hytrach trwy ffydd yn Iesu, a'r parodrwydd i aros ynddo, oherwydd mai dim ond trwy aros ynddo ef y mae modd i'r canghennau dwyn ffrwyth – ffrwyth sy'n gogoneddu Duw.

Efallai bod Iesu wrth ddisgrifio ei hun fel y "wir winwydden" hefyd yn defnyddio'r ddelwedd o'r winwydden aur a oedd yn rhan o'r Deml yn Jerwsalem. O amgylch y drws a oedd yn arwain i'r lle mwyaf sanctaidd yn y deml, y rhan honno o'r deml lle y credai pobl Israel roedd Duw ei hun yn preswylu ar y ddaear, roedd gwinwydden aur enfawr i gynrychioli pobl Israel. Byddai pobl, y rhai mwyaf cyfoethog, wrth reswm, yn gallu rhoi rhodd o aur i'r deml er mwyn ychwanegu cangen neu rawnswp i'r winwydden aur hon i ddangos eu bod hwy'n rhan o'r winwydden, a thrwy eu rhodd o aur yn gogoneddu Duw, tra'n gogoneddu harddwch y Deml.

Ond nid felly gyda Iesu. Nid trwy enedigaeth y mae rhywun yn dod yn rhan o'r winwydden, na chwaith trwy gyfoeth. Nid oes modd prynu ein ffordd tuag at Grist. Mae angen rhywbeth llawer mwy gwerthfawr arnom nag aur, sef ffydd.

Ystyriwch ein darlleniad o lyfr yr Actau. Pan ddaeth Philip ar draws y gwâr o Ethiop, eunuch a oedd yn uchel-swyddog i frenhines yr Ethiopiaid. Roedd hwn, mae'n amlwg, yn ddyn a oedd yn ymarfer y ffydd Iddewig, ac yr oedd wedi dod i Jerwsalem i addoli. Pan ddaeth Philip ato yr oedd yn darllen darn o lyfr y proffwyd Ezeia oedd yn sôn am y gwas dioddefus. Ar ôl i Philip esbonio iddo mai cyfeirio at Iesu fel y Meseia oedd y darn hwn o'r Hen Destament, mynnodd yr eunuch, yn syth bin, pan welodd ychydig o ddŵr, ei fod yn cael ei fedyddio yn y fan ar lle. Trwy esboniad Philip cafodd yr eunuch ei argyhoeddi mai Iesu oedd y Meseia. Gosododd ei ffydd ynddo, a thrwy ei fedydd fe'i himpiwyd i'r wir winwydden. Trwy ffydd

a bedydd, y cawn ein gwneud yn rhan o'r wir winwydden, nid trwy enedigaeth fraint na chyfoeth, ond trwy ffydd a gweithred Duw.

Un peth yn unig yw cael ein gwneud yn rhan o'r winwydden. I ddwyn ffrwyth mae'n rhaid i ni aros yn rhan ohoni. Dyna beth sydd mor hyfryd am ddelwedd y winwydden fel ffordd o esbonio ein perthynas â Iesu a hefyd ein perthynas â'n gilydd. Fel rhan o'r un winwydden yr ydym yn gyd-ddibynnol ar Iesu ac yn gyd-ddibynnol ar ein gilydd. Nid oes angen inni ymdrechu yn llwyr yn ein nerth ein hyn. Yr ydym yn rhan o'r un planhigyn, yr ydym yn rhannu'r un gwreiddiau, a thrwy y gwreiddiau hynny cawn ein maethu a'n nerthu gan yr un cariad, cariad Duw sydd ar waith ynom trwy Grist Iesu.

Fel y wyddom, cyn gynted ag y mae cangen yn cael ei thorri o blanhigyn, mae'r gangen honno yn dechrau gwywo bron yn syth. Wedi'i thorri o'r prif planhigyn does dim modd iddi dderbyn maeth, does dim modd iddi dyfu na dwyn ffrwyth. Mae'n troi'n ddiffwrwyth. Fe allwn ni wneud ein gorau i gadw'r gangen yn fyw trwy ei gosod mewn llestr o ddŵr – a bydd hynny'n cadw'r gangen yn fyw am ychydig o amser, ond nid am amser hir. Heb y maeth a ddaw o'r gwreiddiau, ac wedi'i gwahanu o'r planhigyn – gwywo wna'r gangen. Mae hynny'n wir amdanom ni hefyd. Pan anghofiwn ni aros yn Iesu, pan anghofiwn ni weddio, pan anghofiwn ni gyd addoli, pan anghofiwn ni ein bod yn rhan o'r un wir winwydden, yna gwywo a wnaiff ein ffydd, oeri ffydd ein cariad, a bydd ein gobaith yn pylu. Dim wrth inni fod rhan o'r wir winwydden, ac aros yng Nghrist trwy ei gadw ef yn flaenllaw yn ein meddyliau a'n calonnau, y gallwn ni ddwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n gogoneddu Duw. Amen.

Credo Nicea

**Credwn yn un Duw,
Y Tad, yr hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth.
Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
disgynnodd o'r nefoedd;
trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o Fair
Forwyn,
ac fe'i gwnaed yn ddyn,**

**Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat.
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.
Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,
ac ynghyd â'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.
Cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod.
Amen.**

Yr Ymbiliau

Eryn 2

**O pâ'r i'th Eglwys, ti'r winwydden wir,
Darddu ohonot yn ganghennau ir;
A llifed trwom ni dy rasol nodd,
Nes inni ffrwytho'n felys wrth dy fodd.**

**O galw heddiw 'nghyd, ti'r bugail mawr,
Dy ddiadelloedd llesg o gyrrau'r llawr;
I'th gorlan glyd yn unfryd gad in ddod,
A dyro arnom ni dy ddwyfol nod.**

**O gwna yn awr yn un, ti Grist ein pen,
Dy wasgaredig gorff heb rwyg na llen;
A difa mwy ein gwahaniaethau mân
Trwy weinidogaeth glau yr Ysbryd Glân.**

**O adeilada ni, ti bensaer nef,
Trwy gyfrwng gras yn un saerniaeth gref;
A gwna ni'n feini bywiol y gytûn,
I godi Seion eto i ti dy hun.**

*Morgan D Jones
Erynau'r Llan 141*

Cymun Ysbrydol

Y mae'r Arglwydd yma.
Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Dyrchefwch eich calonnau.
Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Y Gwir a'r bywiol Dduw,
Ffynhonnell bywyd yr holl greadigaeth,
gwnaethost ni ar dy ddelw dy hun.
Rhown ddiolch i ti bob amser ac ym mhob lle
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Oherwydd yn ei fuddugoliaeth dros angau
Gwawriodd oes newydd,
Daeth teyrnasiad hir pechod i ben,
Adnewyddir byd drylliedig
Ac iacheir ni drachefn.*

Felly, gydag angylion ac archangylion,
a holl gwmpeini'r nef
molwn dy enw gogoneddus:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
Nef a daear sy'n llawn o'rh ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

Cofio Sefydlu Swper yr Arglwydd yn ôl St Paul

Oherwydd fe dderbyniais i oddi wrth yr Arglwydd yr
hyn hefyd a draddodais i chwi: i'r Arglwydd Iesu, y nos
y bradychwyd ef, gymryd bara; ac wedi iddo ddiolch,
fe'i torrodd, a dweud, "Hwn yw fy nghorff, sydd er
eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf." Yr un
modd hefyd fe gymerodd y cwpan, ar ôl swper, gan
ddweud, "Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy
ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef, er cof
amdanaf." Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r
bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn
cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw. I
Corthiniaid 11: 23-26

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn
hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,**

yn oes oesoedd. Amen.

Cymerwn ennyd i fyfyrion ar y Cymun Bendigaid, ac ar
orchymyn Iesu, "Gwnewch hyn er cof amdanaf".

Darn o gerddoriaeth fyfyrion – para tua 15 – 30 eiliad
Gan gofio y troeon eisoes yr ydym wedi penlinio wrth
ffwrdd y Cymun, ac estyn ein dwylo i dderbyn y bara,
corff Crist; ac yfed o'r un cwpan, gwaed Crist,
gweddiwn gyda'n gilydd:

**O Wynfydedig Arglwydd,
mewn undod â'th bobl ffyddlon ledled y byd,
gerbron pob allor yn dy Eglwys lle dethlir yr
Ewcharist,
dymunwn offrymu iti fawl a diolch.
Cyflwynaf i ti fy enaid a'm corff
gan daer ewyllysio bod yn un â thi'n wastadol.
Am na allaf yn awr dy dderbyn yn y Sacrament,
tyrd yn ysbrydol i'm calon.
Gwnaf fy hun yn un â thi,
cofleidiaf di â chalon, meddwl ac enaid.
Na foed fyth i ddim dy wahanu di oddi wrthyf;
fel y gallaf fyw a marw yn dy gariad. Amen.**

Angus Die

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dy dangnefedd.**

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw:
ei gariad sy'n dragywydd.

Gweddiwn gyda'n gilydd
**Dragwyddol Dduw
dy Fab Iesu Grist
yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd,
caniatâ i ni gerdded yn ei ffordd,
i lawenhau yn ei wirionedd
a chyfranogi o'i fywyd atgyfodedig;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.**

Dos, Efengyl, o Galfaria,
Ac amlyga allu'r groes;
I bechadur dangos noddfa
Yn haeddiannau angau loes;
Cyfyng awr Iesu mawr
Drodd yn gân i deulu'r llawr.

Dos, Efengyl, tros y gwledydd,
Ar adenydd dwyfol ras,
Gan gyhoeddi'r hyfryd newydd
I dylwythau'r ddaear las:
Cariad Duw'n unig yw
Sylfaen gobaith dynol-ryw.

Dos, Efengyl, trwy yr oesau,
Arwain fyrrd i lwybrau'r nef:
Dangos Grist i'r cenedlaethau,
Gwis hwynt â'i gyfiawnder ef:
Doed y byd o un fryd
I fawrhau ei gariad drud.
W. Evans Jones (Penllyn)
Emynau'r Llan 135

*Mae hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr Eglwys yng Nghymru a phob gwasanaeth sydd ynddo yn eiddo Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984. Neu Y Cymun Bendigaid 2004
Roots a Chaneuon Ffydd.
Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984
Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011.
Colectau a Gweddiâu Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau. Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2002 Emynau – Caneuon Ffydd, Emynau'r Llan*

GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddiâu heddiw, gofynnir inni weddio dros:

- Eglwys Esgobol Jerwsalem a'r Dwyrain Canol
- Ardal Gweinidogaeth y Bont-faen, Arweinydd yr Ardal Gweinidogaeth y Parchedig Stephen Adams, y Cadeirydd Lleyg, Andrea Harries;

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 3 Mai: Henry Vaughan (1695), Bardd

Actau 14:5-18; Salm 115; Ioan 14:21-26

Gweddiwn dros: Esgobaeth Buganda, Talaith Wganda
Ardal Gweinidogaeth y Bont-faen, y Parchedig Stephen Adams (Arweinydd yr Ardal Gweinidogaeth), y Parchedigion Victoria Ashley (Ficer), Ian Yemm (Curad), Jude Peters (Curad)

Ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari, y pennaeth Mrs Sue Prosser, y staff a'r disgyblion

Dydd Mawrth 4 Mai:

Actau 14:19-27; Salm 145; Ioan 14:27-31a

Gweddiwn dros: Esgobaeth Gorllewin Buganda, Talaith Wganda

Plwyf Tregolwyn, Llandŵ a Llyswyrni, y Parchedig Alan Kettle (Ficer)

Eglwys gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Mrs Ceri Hoffrock, y pennaeth, staff a'r disgyblion

Dydd Mercher 5 Mai: Asaff (6ed ganrif), Esgob

Actau 15:1-6; Salm 122; Ioan 15:1-8

Gweddiwn: Esgobaeth Buhiga, Eglwys Esgobol Burundi
Bwrdd Addysg yr Esgobaeth, Mr Andrew Rickett (Cyfarwyddwr Addysg Statudol, Deborah Griffiths (Swyddog Addysg Cynorthwyol), Rebecca Morteo (Swyddog Ysgolion Cynorthwyol)

Dydd Iau 6 Mai:

Actau 15:7-21; Salm 96:1-3, 10-13; Ioan 15:9-11

Gweddiwn dros: Esgobaeth Bujumbura, Eglwys Anglicanaidd Burundi

Ardal Gweinidogaeth Arfordir Treftadaeth Morgannwg, y Parchedig Ganon Edwin Consell (Arweinydd yr Ardal Gweinidogaeth), Alun Jenkins (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Gwener 7 Mai:

Actau 15:22-31; Salm 57:5-11; Ioan 12-17

Gweddiwn dros: Esgobaeth Bukavu – Province de L'Eglise Anglicane Du Congo

Ardal Gweinidogaeth Arfordir Treftadaeth Morgannwg, y Parchedig Ganon Edwin Counsell (Arweinydd), y Parchedigion Craig Vaughan (Ficer),

Rhian Prime (Ficer); Keith Brown, Sue Moll, Bill Henderson, Hazel Norfolk (Darllenwyr Lleyg)
Ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes, Mrs Ceri Thomas, y Pennaeth, staff a'r disgyblion

Dydd Sadwrn 8 Mai: Julian o Norwich (1417), Awdur Ysbrydol

Actau 16:1-10; Salm 100, Ioan 15:18-21

Gweddiwn dros: Esgobaeth Bukedi, Talaith Wganda
Archddiaconiaeth Llandaf, yr Hybarch Peggy Jackson,
Archddiacon